YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

26 Ionawr 2024

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,

**Llwyddiant arholiadau:** Hoffem longyfarch ein carfan Bl11 yn ddiffuant am eu llwyddiant TGAU Rhifedd wrth gyflawni 72% A*-C yn eu harholiad ym mis Tachwedd. Dylai hyn fod yn hwb gwirioneddol i hyder pob disgybl wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau ar gyfer arholiadau'r haf. *Da iawn chi wir!*

**Cinio ysgol:** Ymddiheuriadau am y cyfyngu ar ein bwydlen cinio ysgol yr wythnos hon, Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa wedi gwella ac felly bydd y fwydlen gyfyngedig bresennol yn parhau am yr wythnos nesaf. Oherwydd mai dim ond dau gownter gwasanaeth sydd gennym yn weithredol, gofynnwn yn garedig i ddisgyblion Bl7 i ddod â pecyn bwyd ar gyfer cinio Dydd Llun i Mercher ac i Bl 9 ddod â pecyn bwyd Iau a Gwener yr wythnos nesaf gan nad oes amser digonol i bob plentyn i gael ei weini gyda'r cyfyngiadau rhain. Bydd disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn cael mynediad i'r ffreutur bob dydd.

**Eisteddfod Ysgol – Mawrth 1, Gerddi Soffia 9am – 2pm:** Cynhelir ein Eisteddfod Ysgol eleni eto yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol yng Ngerddi Soffia ar ddydd Gwener, Mawrth 1af, Dydd Gwyl Dewi i holl fyfyrwyr Bl 7, 8, 9 a 12&13. Bydd y bysiau ysgol arferol yn dod i Lantaf yn gyntaf (ar gyfer Bl 10 ac 11) cyn gwneud eu ffordd i Erddi Soffia. Bydd hyn hefyd yn wir am y daith adref. Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion sy'n byw yn lleol i Lantaf (ac yn lleol i Erddi Sophia) i wneud eu ffordd eu hunain i'r ganolfan ac yn ôl adref. Disgwylir i Bl 10 & 11 fynychu'r ysgol yn ôl yr arfer gan y byddant yn dilyn gwersi penodol ar gyfer paratoi ar gyfer arholiadau'r haf.

**Eisteddfod yr Urdd:** Fel y nodwyd ar Classcharts, mae'r dyddiad cau yn awr wedi bod ar gyfer cofrestru ar gyfer y cystadlaethau Offerynnol neu Ddawns, ond os yw eich plentyn eisiau cystadlu ar unrhyw gystadeuaeth **unigol llwyfan** arall yn Eisteddfod yr Urdd eleni, yna mae rhaid i chi ei gofrestru **ERBYN DYDD LLUN, 5/2/24:** Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2024 | Urdd Gobaith Cymru
Mae'r ysgol yn cofrestru ar gyfer y cystadlaethau grwp e.e. partion, corau ayyb ond i gystadlu yn **unigol,** mae angen i chi gofrestru er mwyn gallu cystadlu yn yr Eisteddfodau a gynhelir :
**Offerynnol – 20/02/24** – Gwersyll yr Urdd, Caerdydd: **Dawns – 04/03/24** – Ysgol Uwchradd Fitzalan **Rhagbrofion Uwchradd – 14/03/24** – Canolfan y Memo, Barri; **Eisteddfod Sir – 15/03/24** – Canolfan y Memo, Barri. Awgrymwn yn gryf y dylai'ch plentyn gystadlu yn yr Eisteddfod Ysgol, er mwyn cael profiad o gystadlu - **Rhagbrofion – Mawrth, Chwefror 27. Rhestr Testunau'r Urdd / List of competitions :** Rhestr_Testunau_Eisteddfod_yr_Urdd_2024_CY_F0.6.pdf
**Ymaelodi â'r Urdd / Joining the Urdd :** Ymuno | Urdd Gobaith Cymru

**Trip Lleol Celf:** Cafodd ein myfyrwyr 6ed Dosbarth Celf fudd o daith i ymweld ag arddangosfa *Artes Mundi* yn ogystal ag arddangosfeydd eraill yr amgueddfa, a chafodd Bl.10 Celf a Ffotograffiaeth y cyfle i ymweld a'r arddangosfa a chymryd rhan mewn gweithdy *'Celf ac Ymgyrchu'* wrth drafod a gweld celf lleol a rhyngwladol.





**Debate Mate:** Cymerodd y clwb dadlau, o flynyddoedd 8-11, ran yn lansiad Debate Mate ym Mhrifysgol Caerdydd. Gwirfoddolodd Megan Jones a Sophie Sidman-Jones o flwyddyn 11 i fod yn rhan o'r ddadl fyw ar lwyfan, o flaen cynulleidfa fawr o bobl ifanc o 8 ysgol wahanol. Roedd hwn yn gyfle gwych iddynt ymarfer eu sgiliau llafaredd yn ogystal â dysgu sut i gyflwyno dadl gryf!

**Brechlyn HPV:** Dyddiad i'r dyddiadur i gofio - *Sesiwn Brechlyn HPV* 6ed o Fawrth 2024 i BAWB blwyddyn 8. Bydd y ddolen i'r ffurflen gydsynio electronig yn cael ei anfon rhyw 3-4 wythnos cyn y dyddiad. Gall unrhyw ddisgybl ym ml 9,10,11 sydd heb dderbyn y brechlyn hefyd derbyn y brechlyn ar y diwrnod yma.

**Caffi Lles Rhieni:** Bydd ein caffi lles yn cael ei chynnal ar ddydd Mercher y 7ed o Chwefror am 13.50 yn yr ysgol. Mae hyn yn gyfle i rieni gwrdd a thrafod lles eu plant gydag arbenigwyr amrywiol. Bydd Elen Hughes o Wasanaeth mewn-gymorth i ysgolion yma i gyflwyno ac ateb cwestiynau ar sut i gefnogi Iechyd Meddwl eich plentyn. Cyfle hyfryd i gael sgwrs dros baned a chacen, croeso i bawb!

**Gwaith Partneriaeth Glantaf / Ysgol Uwchradd Llanwern a DARPL:** Rydym yn falch iawn y bydd ein gwaith partneriaeth gydag Ysgol Uwchradd Llanwern a DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth Hiliaeth) yn parhau y tymor hwn gydag ymweliad addysgol â chwe ysgol yn Seland Newydd. Mae'r ymweliad wedi derbyn cyllid trwy *Taith* i gydweithio ag ysgolion yn Seland Newydd ar addysg ddwyieithog, yn ogystal â gwaith ar ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm, sy'n cyfateb yn agos i'r gwaith sy'n digwydd o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod Seland Newydd wedi gosod targed uchelgeisiol iddynt eu hunain o siaradwyr *Te Reo Maori* sy'n debyg i'r hyn sydd wedi digwydd yng Nghymru. Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu uwch arweinwyr a staff o Seland Newydd yn ôl i Gymru yn ystod misoedd yr haf. Noder felly y bydd Mr Matthew Evans (Pennaeth) a Ms Amanda Wiliams (Pennaeth Celf Mynegiannol) ar yr ymweliad o 1-15 Chwefror. Dirprwy Bennaeth Glantaf, Mr Dyfrig Rees fydd yn arwain cymuned yr ysgol yn ystod absenoldeb Mr Evans.

**Digwyddiadau'r Gwanwyn**

| | |
|---|---|
| 29 Ion – 2 Chwe | Gwaith maes Daearyddiaeth Bl 13 i Glanllyn |
| 29-31 Ionawr | Taith Breswyl Bl 9 Awyr Agored i Storey Arms |
| 29 Ionawr | Cyfarfod Taith Efrog Newydd / Washington Bl 10/11 Hanes 6pm a 6.30pm |
| 5-9 Chwefror | Gwasanaethau Diogelwch ar y Rhyngrwyd |
| 6 Chwefror | Bl11 & Lluniau Bl13 – unigolion, grwpiau cyfeillgarwch a llun blwyddyn gyfan |
| 7 Chwefror | Noson Rhieni Blwyddyn 12 (i'w chynnal gan ddefnyddio School Cloud) |
| 8-15 Chwefror | Taith Sgio 2024 |
| **10-18 Chwefror** | **Gwyliau Hanner Tymor** |
| 22 Chwefror | Noson Rhieni Bl 10 (i'w chynnal yn yr ysgol 3.15 – 6.30pm) |
| 1 Mawrth | Eisteddfod Ysgol yng Ngerddi Soffia |

**Dydd Santes Dwynwen:** Dydd Mawrth, 25ain Ionawr oedd Dydd Santes Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru. Diolch i'r Senedd Ysgol, ac yn enwedig i aelodau o'r 6ed dosbarth, am drefnu stondin gacennau a gweithgareddau amrywiol. Rydym yn ddiolchgar i'n holl staff am ddarparu cyfleoedd cyfoethog yn ystod yr hanner tymor byr hwn. Diolch hefyd i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus wrth ein helpu i gynnal safonau uchel ar gyfer ymddygiad a dysgu.



Yours sincerely,
*Megan Bennett*

Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Headteacher
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf